Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Cyngor Celfyddydau Cymru

# Polisi Diogelu

Medi 2022

# Polisi Diogelu Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n ariannu a datblygu ein celfyddydau. Elusen annibynnol ydym a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ym 1994. Mae gennym uchelgais mawr i'r  celfyddydau. Ein strategaeth yw creu lle i feithrin a rhannu'r dalent orau a chynnig cyfleoedd i bobl ledled Cymru brofi'r celfyddydau.

Daw ein harian oddi wrth Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Mae'r rhan fwyaf ohono'n mynd i artistiaid a sefydliadau celfyddydol sy'n gweithio ledled Cymru. Weithiau y cynhaliwn brosiectau i archwilio meysydd celfyddydol newydd neu berswadio sefydliadau eraill i ymddiddori yn y celfyddydau.

A ninnau'n gorff cyhoeddus, mae'n bwysig bod ein gwaith yn agored a hygyrch i bawb.

Nod y polisi yw:

- diogelu rhag niwed blant, pobl ifanc a phobl fregus sy'n ymwneud â gweithgarwch a gynhaliwn neu a ariannwn
- esbonio i'n staff egwyddorion a phrosesau ein diogelu

# Y fframwaith cyfreithiol

Mae'r polisi'n berthnasol i unrhyw un sy'n gweithio ar ran Cyngor gan gynnwys uwch reolwyr, bwrdd yr ymddiriedolwyr, staff cyflogedig, gwirfoddolwyr, gweithwyr sesiynol, staff asiantaeth a myfyrwyr.

Sail y polisi yw'r ddeddfwriaeth, y polisi a'r canllawiau sy'n diogelu plant ac oedolion bregus yng Nghymru. Dyma grynodeb ohonynt: www.nspcc.org.uk/childprotection.

# Dogfennau ategol

Gyda'r polisi dylech hefyd ddarllen:

- ein gweithdrefnau diogelu
- dogfennau ategol
- disgrifiad swydd y swyddog diogelu

Credwn:

- na ddylai plant, pobl ifanc nac oedolion bregus byth brofi unrhyw gamdriniaeth
- bod gennym gyfrifoldeb i hyrwyddo lles pob plentyn, person ifanc ac oedolyn bregus a'u cadw'n ddiogel a gweithio mewn ffordd sy'n eu diogelu

Cydnabyddwn:

- bod lles plant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn hollbwysig yn ein gwaith a'n penderfyniadau
- bod gweithio mewn partneriaeth â phlant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr ac asiantaethau eraill yn hanfodol i hybu lles pobl ifanc
- bod gan bob plentyn hawl cyfartal i gael ei diogelu rhag pob niwed neu gamdriniaeth, ni waeth am ei oed, ei anabledd, ei hil, ei grefydd, ei gred, ei rywedd, ei gyfeiriadedd rhywiol neu ailbennu ei rywedd
- bod rhai plant yn fwy bregus oherwydd eu profiadau blaenorol, eu dibyniaeth, eu hanghenion cyfathrebu neu faterion eraill
- y gallai fod angen mesurau ychwanegol i gadw plant sy'n fwy bregus yn ddiogel

Ceisiwn gadw plant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn ddiogel drwy:

- eu gwerthfawrogi, eu parchu a gwrando arnynt
- penodi ym maes diogelu arweinydd, dirprwy ac ymddiriedolwr arweiniol
- mabwysiadu'r ymarfer diogelu gorau drwy ein polisïau, ein gweithdrefnau a'n cod ymddygiad i staff a gwirfoddolwyr
- datblygu a gweithredu polisi diogelu a gweithdrefnau ar-lein, effeithiol

- rheoli'n effeithiol ein staff a'n gwirfoddolwyr drwy oruchwyliaeth, cefnogaeth, hyfforddiant a mesurau sicrhau ansawdd fel y dônt i wybod yn iawn am ein polisïau, ein gweithdrefnau a'n cod ymddygiad
- recriwtio'n ddiogel staff a gwirfoddolwyr a gwneud pob gwiriad arnynt
- cofnodi, cadw a defnyddio gwybodaeth yn ddiogel, yn unol â'r ddeddfwriaeth a chanllawiau diogelu data
- rhannu gwybodaeth am ddiogelu ac arferion da â'r sector a gefnogwn
- gwneud yn siŵr bod plant, pobl ifanc, oedolion bregus a'u teuluoedd yn gwybod sut i gael cymorth os oes ganddynt bryderon
- rhannu pryderon a gwybodaeth berthnasol ag asiantaethau y mae angen iddynt gael gwybod a rhoi gwybod yn briodol i blant, pobl ifanc, rhieni, teuluoedd a gofalwyr
- rheoli'n briodol unrhyw honiadau yn erbyn staff a gwirfoddolwyr
- creu amgylchedd gwrth-fwlio a sicrhau bod gennym bolisi a gweithdrefnau i ddelio'n effeithiol â bwlio
- arfer yn effeithiol fesurau cwyno a chwythu'r chwiban
- creu amgylchedd diogel drwy arfer mesurau iechyd a diogelwch yn ôl y gyfraith a'r rheolau
- creu diwylliant diogelu lle mae pawb yn trin ei gilydd â pharch a lle y gall pawb rannu eu pryderon

## Manylion cyswllt

### Arweinydd diogelu plant

Enw: Sian James

Ffôn/e-bost: 029 20441351 sian.james@arts.wales

### Dirprwy arweinydd diogelu

Enw: Janine Reynolds

Ffôn/e-bost: 029 20441339 janine.reynolds@arts.wales

### Ymddiriedolwr/Uwch arweinydd diogelu

Enw: Diane Hebb

Ffôn/e-bost: diane.hebb@arts.wales

## Ymchwil ac adnoddau

Llinell gymorth yr NSPCC: 0808 800 5000

Rydym wedi ymrwymo i adolygu ein polisi a'n hymarfer da bob blwyddyn.

Adolygwyd y polisi ddiwethaf ar: 31 Awst 2022

Llofnod:

Dyddiad: 2 Medi 2022

### Hygyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, fformat hawdd i'w ddarllen, Braille, sain ac Arwyddeg. Ymdrechwn i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Recriwtio Cyfle Cyfartal a chroesawn geisiadau gan bawb yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Ni fydd eich dewis iaith yn arwain at unrhyw oedi wrth ymateb.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR